# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 29/11/2022

**Presenoldeb :**

**Y Cynghorwyr :** Meryl Roberts (Yn y Gadair), Paul Rowlinson, Elin Walker Jones a Beca Brown (Aelod Cabinet)

**Eraill:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill :** Edward Pari Jones (Dyneiddiwr), Y Parchedig Nick Sissons (Eglwys Fethodistaidd)

**Athrawon :** Miriam Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion :** Garem P Jackson (Pennaeth Addysg), Einir Rh Davies a Rhodri Jones (Swyddogion Cefnogi Aelodau), Buddug Mair Huws (Clerc CYSAG) a'r Cyfieithwyr

## 1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Paul Rowlinson a chymerwyd y cyfle am fyfyrdod tawel.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau ymlaen llaw gan Nathan Abrams, Cyng. Menna Baines, Sion Huws, Heledd Jones a Gwawr M Williams a derbyniwyd ymddiheuriadau hwyr gan Bethan Jones a Naomi Wood.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf, 2022, fel rhai cywir a bu i'r Cadeirydd eu llofnodi, ar yr amod bod y cywiriadau canlynol yn cael eu nodi :

Eitem 6 – Ychwanegu "… yr ysgolion sydd yn cyflwyno *Cwricwlwm i Gymru ym Mlwyddyn 7"*
Eitem 6 – Dileu *"Chwefror 2021"*
Eitem 8 – Ail-eirio "Ychwanegwyd mwy o gynrychiolwyr o'r credoau"

## 6. AELODAETH A GWAITH CYSAG

Cyflwynodd pawb eu hunain a pwy yr oeddynt yn ei gynrychioli. Rhoddodd Y Cynghorydd Paul Rowlinson gyflwyniad llafar ar waith y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a Chymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC) CYSAG gan gyfeirio at y Llyfryn "Felly Rydych yn Ymuno a'ch CYSAG Lleol" : Llawlyfr i Aelodau CYSAG yng Nghymru.

Nodwyd bod nifer o'r materion sydd yn cael eu trafod yn y Llyfryn wedi eu trafod gan CYSAG, megis

Cynnal cynhadledd pob pum mlynedd
Trafod y cwricwlwm newydd
Maes llafur cytunedig
Newid enw y pwnc
Cefnogi ysgolion
Danfon cynrychiolwyr i gyfarfodydd CCYSAGauC
Ymateb i ymgynghoriadau
Ystyried sut i fonitro ysgolion
Pa wahaniaeth mae CYSAG yn ei wneud?
Sut all CYSAG Gwynedd wella?
Diffyg arbenigedd yn y maes.

**PENDERFYNWYD**: Derbyn y cyflwyniad i waith CYSAG.

## 7. SUT GALL CYSAG FONITRO SAFONAU O FEWN YSGOLION GWYNEDD O 2022?

Atgoffwyd y Pwyllgor o'r rol fonitro sydd gan CYSAG, a cyfeiriwyd at y pecyn oedd wedi ei atodi, yn dangos y sefyllfa cyn 2020. Nodwyd bod dogfen yn cael ei rhannu i pob Ysgol oedd yn cael Arolwg ESTYN i'w chwblhau, ac yna ei chyflwyno i CYSAG, ond nodwyd bod y cyd-destun wedi newid erbyn hyn.
Nodwyd y pryder nad yw mor hawdd cael gwybodaeth erbyn hyn, bod ESTYN ddim yn graddoli ysgolion nac yn eu cymharu, ond yn rhoi fwy o naratif yn eu hadroddiadau, ac o ganlyniad bod y ffordd bresennol o fonitro ddim yn addas erbyn hyn. Yn ychwanegol, nodwyd y nod i leihau y baich gweinyddol ar athrawon.
Nodwyd y pryder am y diffyg cefnogaeth arbenigol i CYSAG yn dilyn newidiadau gan GwE, ond bu i'r Pennaeth Addysg gadarnhau bod cyfarfod ar y gweill ganddo fyddai, o bosib, yn cynnig datrysiad.
Teimlwyd efallai na aros a gweld fyddai mwyaf addas ar hyn o bryd, gan ein bod yn y camau cychwynnol o gyfnod o newid.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad ac ysgrifennu at CCYSAGauC am arweiniad

## 8. DIWEDDARIAD : MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG O FEWN Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU

Cyfeiriodd Clerc CYSAG at y camau a gymerwyd i dderbyn y maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm Newydd i Gymru, ac er na chafwyd sel bendith y Cabinet erbyn Medi 2022, bod y sel bendith wedi ei roi erbyn hyn.

**PENDERFYNWYD** derbyn y diweddariad.

## 9. GOHEBIAETH WEDI EI DDERBYN GAN Y CCYSAGauC

**Cynhadledd yr Hydref y CCYSAGauC**

Nododd y Cynghorydd Paul Rowlinson ei fod wedi mynychu cynhadledd yr Hydref CCYSAGauC, ac adroddodd fel a ganlyn :

Bu i'r mynychwyr dderbyn cyflwyniad ar becyn adnoddau Blwyddyn8, ac er bod nifer o fodiwlau yn y broses o gael eu hasesu, eu bod yn edrych yn dda.

O ran Materion Llywodraeth Cymru, nododd bod y cwestiwn wedi codi yn dilyn diddymu yr hawl i riant dynnu ei blentyn o wersi, ble cwestiynwyd a fyddai hyn yn creu yr un problemau a hawl rhiant i dynnu disgybl o wersi addysg rhyw, ond nid oeddynt o'r farn fod y sefyllfa yr un peth.

Codwyd y mater o fonitro safonau a chadarnhawyd bod angen trafod ymhellach gyda Llywodraeth Cymru.

Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i bob CYSAG baratoi Adroddiad Blynyddol a thrafodwyd fformat yr adroddiadau presennol.

**Manylion yr Wythnos Ryng-Ffydd**

Nodwyd pryder ei bod yn ymddangos bod gweithgareddau wedi eu canslo mewn rhai ardaloedd, ond roedd yn ymddangos mai mewn un ardal yn unig oedd hyn wedi digwydd.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr ohebiaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 p.m. a daeth i ben am 4.30 p.m.

**CADEIRYDD**